**Vaughan Gething AC/AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/VG/1049/20

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a
Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

3 Ebrill 2020

Annwyl Dai,

**CADEIRYDD BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BAE ABERTAWE**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 13 Mawrth a oedd yn cynnwys copi o adroddiad eich Pwyllgor ar y gwrandawiad cyn penodi diweddar mewn perthynas â phenodiad Emma Woollett, yr ymgeisydd a ffefrir ar gyfer y rôl uchod.

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch ichi a'r Pwyllgor am y ffordd ofalus ac ystyriol yr aethoch ati i gynnal y gwrandawiad a llunio'r adroddiad. Yn ogystal â'r argymhellion a wnaed gan y Panel Cynghori ar Asesu, rwyf wedi ystyried y rhesymau pam na wnaeth eich Pwyllgor wrthwynebu penodiad Mrs Woollett, a gallaf bellach gadarnhau y byddaf yn ysgrifennu ati yn cynnig y swydd iddi.

Yn ail, roedd yn siomedig mai dim ond pum cais a ddaeth i law ar gyfer y rôl a hithau wedi cael ei hail-hysbysebu. Ar 27 Chwefror, lansiodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru. Nod y Strategaeth hon fydd datblygu llif o benodiadau cyhoeddus cadarn drwy brosesau asesu penodiadau cyhoeddus sy'n agored, yn gadarn ac o bosibl, yn newydd. Wrth ddatblygu'r llif hwn, gwneir gwaith allgymorth wedi'i dargedu er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael i ddenu talent newydd. Caiff rhaglenni mentora, cysgodi a hyfforddi hefyd eu datblygu i gefnogi'r rheini sydd â diddordeb mewn bod yn aelodau o'r bwrdd.

Yn olaf, rwy'n rhoi ystyriaeth ofalus i'r defnydd a wneir o sefydliadau penhela i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd penodi. Yn aml iawn, mae costau sylweddol ynghlwm â'r ffordd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

hon o weithio, felly mae'n gofyn am gydbwysedd gofalus er mwyn asesu a yw'n debygol o ychwanegu gwerth ai peidio. Eto, bydd y ffordd y byddwn yn defnyddio sefydliadau penhela ac ymgynghoriaethau yn cael ei hystyried fel rhan o'r gwaith o weithredu'r Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Yn gywir

**Vaughan Gething AC/AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services